

At ddefnydd y swyddfa yn unig  
Sgôr: Oes/Nac oes  
Cyfeirnod y Prosiect: TRCxx/xx  
Swyddog Achos Reach:



## Cymunedau Gwledig Ffyniannus: Ffurflen Datganiad o Ddiddordeb

Mae **reach** yn chwilio am grwpiau, sefydliadau a rhwydweithiau lleol i gyflwyno syniadau'n gydwethredol am yr heriau a'r cyfleoedd yn yr ardal leol a allai elwa ar gyllid gan LEADER.

Os cant eu cymeradwyo i dderbyn cefnogaeth, byddant yn gweithio gyda **reach** i gomisiynu eu syniad ac yn chwarae rhan weithredol i'w gwireddu. Bydd angen i'r prosiectau gael eu cefnogi gan eu cymuned leol a dangos budd gwirioneddol i Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wledig.

### Ynglŷn â'r ffurflen hon

Defnyddir y ffurflen hon er mwyn cadarnhau bod eich syniad yn gymwys, o ran egwyddor, i dderbyn cefnogaeth gan LEADER dan Gynllun Cymunedau Gwledig Ffyniannus y Grŵp Gweithredu Lleol.

Os ystyrir fod eich prosiect yn gymwys ar y cam hwn, fe'ch gwahoddir i ddatblygu cynnig cyflawn, gyda chymorth gan swyddog **reach** i'ch arwain trwy'r broses.

Cyn llenwi'r ffurflen hon, byddwch cystal â gwneud yn siŵr eich bod wedi darllen y ddogfen **Cymunedau Gwledig Ffyniannus: Canllawiau'r Cynllun** a'r ddogfen amgaaedig **Canllawiau Asesu'r Prosiect**.

Os oes angen cymorth arnoch i lenwi'r ffurflen **Datganiad o Ddiddordeb** hon, gall aelod o dîm **reach** eich helpu. I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â [reach@bridgend.gov.uk](mailto:reach@bridgend.gov.uk) neu ffoniwch 01656 815080.

Wedi ei llenwi, dylech gyflwyno eich ffurflen trwy e-bost i [reach@bridgend.gov.uk](mailto:reach@bridgend.gov.uk).

Os yw'n well gennych, cewch bostio copïau caled i:

Grŵp Gweithredu Lleol **reach**  
Twristiaeth, Cefn Gwlad a Datblygu Gwledig  
Lefel 3, Y Swyddfeydd Dinesig  
Stryd yr Angel  
Pen-y-bont ar Ogwr  
CF31 4WB



Byddwch cystal ag ateb y pedwar cwestiwn canlynol. Defnyddiwch gymaint o le gwag ag sydd ei angen arnoch o fewn yr uchafswm nifer geiriau a ganiateir, lle y'u dangosir:

### **1. Dangoswch ar ran pwy y cyflwynir y cynnig hwn:**

- Grŵp gweithredu cymunedol
- Rhwydwaith neu gonsortia (ffurfiol neu anffurfiol, ac yn cynnwys rhwydweithiau busnes)
- Sefydliad y trydydd sector neu'r sector cyhoeddus
- Aelod o Grŵp Gweithredu Lleol Pen-y-bont ar Ogwr
- Y Corff Gweinyddu ar gyfer datblygu gwledig ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Rhowch fwy o fanylion, er enghraifft, disgrifiad neu enw'r grŵp/ sefydliad/ consortia sydd y tu cefn i'r prosiect.

Enw'r grŵp/disgrifiad o'r grŵp:

### **2. Cadarnhewch fod unigolion cyswllt penodedig ar gael sy'n ymroi i reoli'r prosiect yn barhaus.**

Cadarnhewch enw o leiaf un unigolyn a fydd yn gyfrifol am gwblhau'r prosiect yn llwyddiannus yn unol ag unrhyw gytundeb sydd yn ei le. Fel arfer, yr unigolyn sy'n cyflwyno'r Datganiad o Ddiddordeb fydd hwnnw. Dylech fod yn barod i roi cadarnhad ysgrifenedig oddi wrth y grŵp, rhwydwaith neu sefydliad a gynrychiolir fod y grŵp yn caniatáu i'r unigolyn hwn weithredu ar ei ran i gyflenwi'r cynnig amlinellol ar ôl i'r prosiect gael cymeradwyaeth lawn.

Enw'r Unigolyn Cyswllt:

Rhif Ffôn yr Unigolyn Cyswllt:

Cyfeiriad E-bost yr Unigolyn Cyswllt:

### **3. Nodwch pa rai o'r pum thema LEADER canlynol y mae eich syniad am y prosiect yn cyd-fynd â hwy:**

- Ychwanegu gwerth at hunaniaeth leol ac adnoddau naturiol a diwylliannol
- Hwyluso datblygiad cyn-fasnachu, partneriaethau busnes a chadwyni cyflenwi byr
- Archwilio ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau lleol anstatudol
- Ynni adnewyddadwy ar lefel gymunedol
- Manteisio ar dechnoleg ddigidol

#### **4. Cadarnhewch fod syniad y prosiect o fudd i gymunedau gwledig ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.**

Amlinellwch yr her neu'r cyfle a nodwyd gennych, yn ogystal â buddiannau posibl buddsoddiad LEADER, i'r bobl sy'n byw neu'n gweithio ym Mhen-y-bont ar Ogwr wledig, neu sy'n ymweld â'r lle. (dim mwy na 500 o eiriau)